# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5ed Gorffennaf, 2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cyfarfodydd aml-leoliad |
| **Pwrpas:** | Diweddariad am ddatblygiadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd hybrid. |
| **Swyddog (ion) cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

## Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno.**

### 2. CRYNODEB

2.1 Ers Hydref 2020 mae holl gyfarfodydd y Cyngor wedi eu cynnal yn rhithiol gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy Zoom. Bellach, mae cyfarfodydd o'r fath yn ail natur i'r Cynghorwyr a phawb wedi ymgyfarwyddo gyda'r trefniadau. Llwyddwyd i gynnal 123 o gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor yn rhithiol yn ystod 2021/22 yn ogystal â chefnogi 41 o gyfarfodydd anffurfiol i Gynghorwyr.

2.2 Yn Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn ar y trefniadau hir dymor ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor. Y penderfyniad oedd i barhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol lle bo modd, a chynnal cyfarfodydd aml leoliad lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd. Rydym felly yn cynnal cyfarfodydd aml leoliad ar gyfer

- Y Cyngor llawn
- Y Cabinet
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgorau Craffu

2.3 Mae buddion ac arferion da amlwg wedi dod o gynnal cyfarfodydd rhithiol, arferion sydd angen eu cynnal i'r dyfodol. Wrth fabwysiadu'r trefniadau rhoddwyd ystyriaeth i nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys

- hybu amrywiaeth mewn democratiaeth trwy alluogi mynediad o bell i gyfarfodydd ac ymateb i anghenion Cynghorwyr sy’n gweithio ac/neu’n rhieni ifanc
- Cyfrannu'n bositif tuag at leihau effeithiau'r Argyfwng Hinsawdd drwy adnabod ffyrdd o ostwng carbon drwy gyfyngu ar deithio i gynghorwyr a swyddogion
- defnyddio amser Cynghorwyr a swyddogion yn fwy synhwyrol trwy ddileu’r gofynion teithio.

2.4 Yn sgîl y penderfyniad i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd a chynnal cyfarfodydd aml leoliad (hybrid) lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd, rydym wedi bod yn gweithio ar addasu'r adnoddau yn y siambrau i alluogi cynnal cyfarfodydd aml leoliad. Mae wedi bod yn her i ddod a’r trefniadau ynghyd, yn arbennig gan sicrhau fod y cyfan yn digwydd yn naturiol trwy’r Gymraeg gan alluogi cyfieithu ar y pryd. Mae’n hawdd anghofio fod y gwaith datblygu i gyd wedi gorfod digwydd o fewn cyfyngiadau Covid-19, wrth i ni wynebu misoedd o arweiniad i fod yn gweithio o gartref.

2.5 Bellach, gallaf adrodd ein bod wedi cynnal cyfarfodydd y Cyngor llawn, y Cabinet a’r Pwyllgor Cynllunio yn aml leoliad. Bydd cyfres cyntaf y pwyllgorau craffu yn cychwyn ym mis Gorffennaf – eto yn aml leoliad. Mae modd cynnal cyfarfodydd aml leoliad o Siambr Dafydd Orwig, ac o Siambr Hywel Dda bellach. Rwy’n ddiolchgar i bawb am eich cydweithrediad wrth i ni barhau i ddatblygu’r trefniadau hyn.

2.6 Law yn llaw a’r uchod, mae gwaith yn digwydd ar ddatblygu ystafelloedd cyfarfod eraill ar gyfer gallu cynnal cyfarfodydd anffurfiol o amrywiol leoliadau. Bydd un system yn cael ei archebu ar gyfer pob ystafell gan ganolbwyntio ar geisio sicrhau fod defnyddio’r system am fod yr un fath ym mhob ystafell, er y gall y caledwedd amrywio yn ddibynnol ar faint yr ystafell.